**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**–**
**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
**–**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Chris Llewelyn
Prif Weithredwr
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

21 Mawrth 2025

Annwyl Chris

Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi bod yn cynnal ymchwiliad i atal iechyd gwael - gordewdra.

Roeddem yn gobeithio clywed gan gynrychiolwyr awdurdodau lleol ar amrywiaeth o faterion, gan gynnwys prydau ysgol, cynllunio, teithio llesol a gweithgareddau hamdden. Gwaetha'r modd, bu ond yn bosibl trefnu tystion i siarad am brydau ysgol, gyda diolch yn bennaf i ymdrechion Kaarina Ruta. Mae hyn yn siomedig, o ystyried rôl bwysig awdurdodau lleol yn y meysydd hyn, ond yn hytrach nag oedi ymhellach cyn cwblhau ein gwaith casglu tystiolaeth, mae'r Pwyllgor wedi cytuno i ofyn am dystiolaeth ysgrifenedig ar y materion sy'n weddill. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech drefnu ymateb i'r materion a nodir yn yr atodiad erbyn **dydd Gwener, 18 Ebrill**.

Yn gywir,

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

## Atodiad 1

Byddem yn croesawu eich ymateb i'r cwestiynau a nodir isod mewn perthynas ag atal iechyd gwael – gordewdra erbyn dydd Gwener, 18 Ebrill 2025

### Strategaeth Llywodraeth Cymru ac ystyried gordewdra

1. Beth fu cyfranogiad awdurdodau lleol yn strategaeth Llywodraeth Cymru, 'Pwysau Iach: Cymru Iach', a chynlluniau cyflawni cysylltiedig, ac a ddylid cynyddu'r cyfranogiad hwn?
2. Pa rôl y gallai awdurdodau lleol ei chwarae wrth ostwng cyfraddau gordewdra?
3. Ym mha ffordd y mae lleihau gordewdra yn cael ei ystyried yng nghynlluniau a pholisïau awdurdodau lleol, ac a ellid cryfhau hynny?
4. A fu unrhyw gydweithio rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd mewn perthynas â lleihau lefelau gordewdra yng Nghymru?

### Cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau corfforol yn yr awyr agored

5. Pa gamau sy'n cael eu cymryd i gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer teithio diogel a llesol, a beth yw'r heriau o ran annog y cyhoedd i fanteisio ar y cyfleoedd hyn?
6. Sut mae polisïau cynllunio yn sicrhau bod gan bob cymuned fynediad cyfartal i fannau agored, i annog cyfranogiad rheolaidd mewn gweithgaredd corfforol a gweithgareddau awyr agored?
7. Pa gamau sy'n cael eu cymryd i ddarparu amgylcheddau diogel lle gall plant chwarae yn yr amgylchedd naturiol?
8. Sut mae awdurdodau lleol yn sicrhau bod mannau chwarae a mannau agored yn hygyrch i bawb, a sut mae'r ardaloedd hyn yn cael eu hysbysebu i'r cyhoedd, i'w gwneud yn ymwybodol o'r hyn sydd ar gael?

### Cyfleusterau hamdden

9. Beth yw'r heriau i awdurdodau lleol o ran cynnal ac ehangu cyfleusterau hamdden, megis canolfannau hamdden, mewn cymunedau, a beth sy'n cael ei wneud i oresgyn yr heriau hyn?
10. Mewn ardaloedd lle mae cyfleusterau hamdden wedi cau, i ba raddau y mae iechyd y boblogaeth yn cael ei ystyried yn y broses o wneud penderfyniadau?
11. Pa fesurau sydd ar waith i sicrhau mynediad teg i gyfleusterau hamdden i bob cymuned?
12. Sut mae opsiynau iach ar gyfer bwyd a diod yn cael eu darparu a'u hyrwyddo mewn cyfleusterau hamdden sy'n eiddo i awdurdodau lleol?

## Amgylchedd bwyd lleol a pholisïau cynllunio lleol

13. Pa bwerau sydd gan awdurdodau lleol, ar hyn o bryd, i reoli nifer a lleoliad siopau ‘bwyd cyflym’ mewn ardal benodol, ac i annog argaeledd opsiynau iachach?
14. Pa gamau y gellir eu cymryd pan fod yna doreth o fannau sy’n gwerthu ‘bwyd cyflym’, ac a fyddai pwerau pellach i awdurdodau lleol yn fuddiol?
15. A yw iechyd a llesiant yn cael eu hystyried fel rhan o'r cais cynllunio ar gyfer sefydliadau newydd ‘bwyd cyflym’? A ddylid cryfhau hyn?
16. Beth yw’r polisi cynllunio presennol mewn perthynas â mannau gwerthu ‘bwyd cyflym’ yn agos at ysgolion a cholegau, ac osgoi cyflenwad gormodol o siopau o’r fath?
17. Pa gamau a gymerir i sicrhau nad oes nifer anghymesur o fannau gwerthu ’bwyd cyflym’ mewn ardaloedd difreintiedig, ac i annog mynediad teg at fwyd iach, fforddiadwy?
18. Tynnwyd sylw’r Pwyllgor at y ffaith bod awdurdodau lleol o bob rhan o’r DU, gan gynnwys Caerdydd a Bro Morgannwg, yn bwrw ymlaen â’r gwaith o ddatblygu polisïau hysbysebu iachach ar lwyfannau y mae awdurdodau lleol yn berchen arnynt ac yn eu rheoli (megis arosfannau bysiau a hysbysfyrddau). A oes cynlluniau i awdurdodau lleol eraill fabwysiadu dull tebyg, ac a fyddai unrhyw rwystrau o ran eu rhoi ar waith?